Llwybr Datblygu'r Gymraeg

2023-24



Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

Darlith 8

Dydd Mawrth 14eg o Dachwedd 2023

Nod y ddarlith:



- Ystyried sut i godi safonau wrth ysgrifennu rhydd
- Fframwaith Cymwyseddau i Athrawon

Ysgrifennu Rhydd

FFRAMWAITH CYMWYSEDDAU I ATHRAWON

SGIL – YSGRIFENNU

YSGRIFENNU (UWCH)	Gallu ysgrifennu paragraffau estynedig am amrywiaeth o bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, efallai gyda chymorth arfau iaith cyfrifiadurol. Yn gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	• Cyflwyno adborth ysgrifenedig ar dasgau gan ysgrifennu'n ymestynnol gan arddangos gwybodaeth dda o gywirdeb, rheolau gramadeg a'r awydd i drosglwyddo hynny i ddisgyblion sy'n ddysgwyr. • Defnyddio amrywiaeth diddorol o frawddegau a phatrymau, ffurfiau berfol safonol, *ac* ystod o dreigladau yn gynyddol gywir gan ddefnyddio strategaethau a chymorth arfau iaith cyfrifiadurol.
YSGRIFENNU (HYFEDREDD)	Gallu ysgrifennu'n estynedig ac yn safonol am faterion cymhleth. Ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau. Yn gallu hunangywiro lle bo angen gan ddangos defnydd cywir o arfau iaith cyfrifiadurol.	• Ysgrifennu darnau estynedig sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy'n crynhoi, gan addasu'r arddull a'r ffurf yn hyderus ar gyfer y darllenydd neu'r gynulleidfa. • Ysgrifennu'n fedrus a chywir tra'n arddangos gwybodaeth dda iawn o reolau gramadeg, atalnodi gan ddefnyddio strategaethau a chymorth arfau iaith cyfrifiadurol i wirio gwaith personol ac eraill.

Canllaw ar Ofynion Y Fframwaith 2023-24

Dyma enghreifftiau o'r mathau o bethau gallwch chi eu cynnwys fel tystiolaeth ysgrifennu.

Enghreifftiau o dystiolaeth
Uwch ac Hyfedredd

Aseiniad academaidd

Datganiad personol - cais am swydd

Llythyr ffurfiol e.e. at rieni.

Adroddiadau ar waith disgyblion.

Adfyfyrio a gosod ein targedau personol



Tystysgrif Sgiliau Iaith

Cwestiwn 3
Ysgrifennu'n Rhydd

Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg

3. Ysgrifennu Rhydd [40]

Rhaid i chi ysgrifennu rhwng 290 a 320 o eiriau. Byddwch yn colli marciau os bydd eich darn ysgrifennu'n rhy fyr neu'n rhy hir.

Rydych chi'n gwneud cais i fynd ar brofiad gwaith perthnasol i chi. Ysgrifennwch y cais, gan sôn am yr isod (does dim rhaid dilyn y drefn hon):

- pam rydych chi eisiau mynd ar brofiad gwaith yno;
- beth gallwch chi ei gynnig i'r gweithle;
- y cyfnod yr hoffech ei dreulio yn y gweithle (nodwch ddau ddewis);
- profiad perthnasol rydych wedi ei gael yn y gorffennol;
- eich gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg

Meini Prawf

	Rhan 3 – Ysgrifennu rhydd	40 marc
Y3.1	**Cywirdeb**	10 marc
	9-10 ysgrifennu'n gywir iawn, ychydig iawn o fân wallau'n unig. 7-8 ysgrifennu'n gywir, gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu gormod o sylw. 5-6 ysgrifennu'n gywir ar y cyfan, er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth. 3-4 ysgrifennu'n eithaf gwallus, a'r camgymeriadau'n amharu ar ddealltwriaeth y darllenydd. 0-2 y testun y cynnwys nifer o gamgymeriadau elfennol.	
Y3.2	**Ystod**	10 marc
	9-10 defnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa, sy'n gwbl briodol i'r dasg. 7-8 defnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa sy'n briodol i'r dasg. 5-6 defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n addas i'r dasg, er bod rhai bylchau amlwg. 3-4 defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a phatrymau a'r diffygion yn peri peth anhawster wrth ysgrifennu'r testun. 0-2 defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflawni'r dasg yn foddhaol.	
Y3.3	**Cynnwys a threfn**	10 marc
	9-10 y cynnwys yn rhagorol a'r ymgeisydd yn gallu cyflawni'r dasg yn ddeallus; y darn yn gwbl drefnus a'r pwyntiau'n dilyn ei gilydd yn rhesymegol. 7-8 y cynnwys yn dda iawn, ac yn dangos bod yr ymgeisydd yn gallu cyflawni'r dasg yn dda; y darn yn drefnus ar y cyfan. 5-6 y cynnwys yn foddhaol a'r ymgeisydd yn cyflawni'r dasg yn ddealladwy ar y cyfan; y darn yn weddol drefnus er bod rhai pwyntiau heb fod yn dilyn yn rhesymegol. 3-4 y cynnwys yn arwynebol ar y cyfan; y darn yn anhrefnus i raddau helaeth. 0-2 y cynnwys yn anfoddhaol; heb ôl trefn na strwythur amlwg.	
Y3.4	**Ateb y gofynion**	10 marc
	Mae 5 o ofynion ym mhob sbardun. Rhoddir 2 farc am bob un o'r gofynion a atebir yn gyflawn ac yn briodol; Rhoddir 1 marc am bob un o'r gofynion a atebir yn rhannol neu'n lled briodol.	

Cyngor ar gyfer Cwestiwn 3

- Meddyliwch ymlaen llaw pa sgiliau sydd gennych (mae'r cwestiynau yn y gorffennol wedi tueddu i ganolbwyntio ar gyflogadwyedd / sgiliau / profiadau) a chofiwch am eich sgiliau iaith Gymraeg.

- Bydd y cwestiwn yn eithaf penodol ac wedi ei rannu i bwyntiau bwled. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ateb pob pwynt bwled. Rhaid ateb gofynion y dasg benodol neu mi fyddwch chi'n colli marciau.

- Mae paratoi o flaen llaw yn bwysig. Dysgwch frawddegau stoc yn barod ac yna eu haddasu yn ôl y dasg benodol.

- Mae 40 marc am y cwestiwn hwn. Gallwch chi ateb y cwestiwn hwn yn gyntaf os ydych chi'n dymuno, does dim gwhaniaeth ym mha drefn yr ydych chi'n ateb y papur arholiad.

- Cynlluniwch eich ateb cyn dechrau ysgrifennu - mae hanner y marciau i'w cael am fod yn drefnus!

ATEB MODEL:

Hoffwn wneud cais i dreulio cyfnod o brofiad gwaith yn Ysgol Uwchradd Aberwylan. Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn addysg a'r iaith Gymraeg gan fy mod yn astudio gradd mewn Addysg Gymraeg Uwchradd. Hoffwn gael profiad er mwyn datblygu fy sgiliau, hybu hyder a chael profiad o wahanol agweddau ar fod yn athrawes ail iaith.

Byddai diddordeb gennyf mewn gweithio ar ddau gyfnod gwahanol: Ym mis Medi, er mwyn adnabod y disgyblion newydd a gweld sut mae'r athrawon yn cyflwyno'r iaith Gymraeg iddynt, ac adeg y ffug arholiadau TGAU er mwyn gweld sut mae'r ysgol a'r disgyblion yn paratoi, sut mae pawb yn ymdopi â'r gwaith a beth yw'r trafferthion sydd yn codi'n fwyaf aml.

Rwyf wedi bod yn gweithio yn y maes addysg ers pum mlynedd, ac wedi gweithio gydag ystod eang o oedrannau. Mae profiad gennyf mewn gweithio gydag asiantaethau allanol, aelodau'r gymuned, pwyllgorau rhieni a staff yn gyffredinol. Gweithiais mewn ysgol uwchradd eleni a chefais brofiad addysgiadol iawn yn addysgu Cymraeg Ail Iaith.

Roeddwn yn athrawes i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3, a chefais y cyfle a'r pleser i gynorthwyo yn nosbarthiadau Anghenion Ychwanegol a Chyfnod Allweddol 4. Yn yr ysgol honno, trefnais glwb darllen a chlwb gwaith cartref i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3, ac roedd yn llwyddiannus iawn. Roedd disgyblion hŷn yn helpu'r plant llai a gwnaeth pawb fwynhau'r profiad.

Nid yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf i fi, ac mae'r ffaith fy mod wedi dysgu'r Gymraeg yn fy arddegau wedi effeithio'n gadarnhaol ar agwedd y disgyblion; a'u hannog i lwyddo.

Rwyf wedi ymdopi mewn modd arbennig â gofynion y swydd ac wedi cael fy asesu'n ffurfiol gan athrawon, pennaeth adran yr ysgol a mentoriaid. Cefais ganlyniadau ardderchog yn yr asesiadau hyn. Rwyf yn edrych ymlaen at fynd ar brofiad gwaith unwaith eto, a byddai'r ysgol arbennig hon yn lle rhagorol i wneud hynny. [305 o eiriau]

- Mae brawddegau ac atebion enghreifftiol gwych yn yr hen bapurau yn cynnwys llawer o idiomau.

http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/adnoddau/papurauenghreifftioltsi/

- Cofiwch hefyd mae pob croeso i chi ateb un o gwestiynau'r cyn-bapur ac anfon y darn ataf i gael adborth personol.

Cyfathrebu clir wrth ysgrifennu.

Y rheswm pam fod cywirdeb yn cyfrif yw am ei fod yn gyfrwng EGLURDEB

Mae darn gwallus yn anodd iawn i'w ddeall.

Nid yw felly'n eglur.

Nid yw'n cyfathrebu!

Cyfathrebu – PRIF bwrpas UNRHYW ddarn ysgrifenedig!

Byddwch yn gryno.

- Yn dilyn y ffaith bod pob un beirniad theatr wedi mynd ati i ddadansoddi'r testun trwy fabwysiadu safbwyntiau gwahanol, ni fu modd dod i gytundeb ar y mater (28 gair)

- Gan i'r beirniaid theatr fabwysiadu safbwyntiau gwahanol ar y testun, ni chytunwyd ar y mater (15 gair)

Berfau cryno neu ferfau cwmpasog?

Ffurf Gwmpasog:	**Ffurf Gryno:**
defnyddio nifer o eiriau i ffurfio berf	berf un gair
Unigol	**Unigol**
1. Rydw i'n credu	1. Credaf i
2. Rwyt ti'n credu	2. Credi di
3. Mae ef/hi yn credu	3. Cred/Creda ef/hi
Lluosog	**Lluosog**
1. Rydym ni'n credu	1. Credwn ni
2. Rydych chi'n credu	2. Credwch chi
3. Maen nhw'n credu	3. Credant hwy/Credan nhw

Berf Amhersonol

Mae berf amhersonol yn cyfeirio at y gweithgaredd yn unig, sef berf heb berson yn perthyn iddi.

Amser presennol: Credir

Negyddol: Ni chredir

Allan o'r Llyfr Gair yn Gymorth

Negyddol

Negyddol	
Ffurf Gwmpasog:	**Ffurf Gryno:**
defnyddio nifer o eiriau i ffurfio berf	berf un gair
Unigol	**Unigol**
1. Dydw i ddim yn credu	1. Ni chredaf i
2. Dwyt ti ddim yn credu	2. Ni chredi di
3. Dydy ef/hi – Dyw ef/hi ddim yn credu	3. Ni chreda ef/hi
Lluosog	**Lluosog**
1. Dydyn ni ddim yn credu	1. Ni chredwn ni
2. Dydych chi ddim yn credu	2. Ni chredwch chi
3. Dydyn nhw ddim yn credu	3. Ni chredan nhw/Ni chredant hwy

Y presennol / dyfodol

Ar gyfer traethawd adfyfyriol, defnyddiwch y berfau person 1af unigol.

Cewch ddefnyddio berfau amhersonol cyhyd â'ch bod chi ddim yn nodi person ar ôl y ferf!

(Copi pdf o'r berfau ar Moodle)

Rhai berfau perthnasol amser presennol/dyfodol ar gyfer Mynegi Barn a Safbwynt

Berfenw	Person 1af Unigol	3ydd Person Unigol	Person 1af Lluosog	Amhersonol
Amcangyfrif	Amcangyfrif**af i**	Amcangyfrif**a ef/hi**	Amcangyfrif**wn ni**	Amcangyfrif**ir**
Amlygu	Amlygaf	Amlyga	Amlygwn	Amlygir
Arddangos	Arddangosaf	Arddangosa	Arddangoswn	Arddangosir
Awgrymu	Awgrymaf	Awgryma	Awgrymwn	Awgrymir
Braslunio	Brasluniaf	Braslunia	Brasluniwn	Braslunir
Cael	Caf	Caiff	Cawn	Ceir
Casglu	Casglaf	Casgla	Casglwn	Cesglir
Cyfaddef	Cyfaddefaf	Cyfaddefa	Cyfaddefwn	Cyfaddefir
Cyflwyno	Cyflwynaf	Cyflwyna	Cyflwynwn	Cyflwynir
Cymharu	Cymharaf	Cymhara	Cymharwn	Cymherir
Cytuno	Cytunaf	Cytuna	Cytunwn	Cytunir
Dadansoddi	Dadansoddaf	Dadansodda	Dadansoddwn	Dadansoddir
Dadlau	Dadleuaf	Dadleua	Dadleuwn	Dadleuir
Dangos	Dangosaf	Dengys	Dangoswn	Dangosir
Darlunio	Darluniaf	Darlunia	Darluniwn	Darlunir
Dweud	Dywedaf	Dywed	Dywedwn	Dywedir
Dylunio	Dyluniaf	Dylunia	Dyluniwn	Dylunir
Dysgu	Dysgaf	Dysga	Dysgwn	Dysgir
Egluro	Egluraf	Eglura	Eglurwn	Eglurir
Esbonio	Esboniaf	Esbonia	Esboniwn	Esbonnir
Galw	Galwaf	Galwa	Galwn	Gelwir
Gallu	Gallaf	Gall	Gallwn	Gellir
Gosod	Gosodaf	Gosoda	Gosodwn	Gosodir
Gweld	Gwelaf	Gwêl	Gwelwn	Gwelir
Gwybod	Gwn	Gŵyr	Gwyddom	Gwyddys
Herio	Heriaf	Heria	Heriwn	Herir
Meddwl	Meddyliaf	Meddylia	Meddyliwn	Meddylir
Mynegi	Mynegaf	Mynega	Mynegwn	Mynegir
Neidio	Neidiaf	Naid	Neidiwn	Neidir
Penderfynu	Penderfynaf	Penderfyna	Penderfynwn	Penderfynir
Rhannu	Rhannaf	Rhanna	Rhannwn	Rhennir
Rhagfynegi	Rhagfynegaf	Rhagfynega	Rhagfynegwn	Rhagfynegir
Rhagweld	Rhagwelaf	Rhagwela	Rhagwelwn	Rhagwelir
Rhedeg	Rhedaf	Rhed	Rhedwn	Rhedir
Rhyfeddu	Rhyfeddaf	Rhyfedda	Rhyfeddwn	Rhyfeddir
Sefyll	Safaf	Saif	Safwn	Sefir
Teimlo	Teimlaf	Teimla	Teimlwn	Teimlir
Toddi	Toddaf	Tawdd	Toddwn	Toddir
Trafod	Trafodaf	Trafoda	Trafodwn	Trafodir
Ymchwilio	Ymchwiliaf	Ymchwilia	Ymchwiliwn	Ymchwilir

Y presennol / dyfodol

Ar gyfer traethawd adfyfyriol, defnyddiwch y berfau person 1af unigol.

Cewch ddefnyddio berfau amhersonol cyhyd â'ch bod chi ddim yn nodi person ar ôl y ferf!

Rhai berfau perthnasol amser presennol/dyfodol ar gyfer Mynegi Barn a Safbwynt

Berfenw	Person 1af Unigol	3ydd Person Unigol	Person 1af Lluosog	Amhersonol
Amcangyfrif	Amcangyfrif**af i**	Amcangyfrif**a ef/hi**	Amcangyfrif**wn ni**	Amcangyfrif**ir**
Amlygu	Amlygaf	Amlyga	Amlygwn	Amlygir
Arddangos	Arddangosaf	Arddangosa	Arddangoswn	Arddangosir
Awgrymu	Awgrymaf	Awgryma	Awgrymwn	Awgrymir
Braslunio	Brasluniaf	Braslunia	Brasluniwn	Braslunir
Cael	Caf	Caiff	Cawn	Ceir
Casglu	Casglaf	Casgla	Casglwn	Cesglir
Cyfaddef	Cyfaddefaf	Cyfaddefa	Cyfaddefwn	Cyfaddefir
Cyflwyno	Cyflwynaf	Cyflwyna	Cyflwynwn	Cyflwynir
Cymharu	Cymharaf	Cymhara	Cymharwn	Cymherir
Cytuno	Cytunaf	Cytuna	Cytunwn	Cytunir
Dadansoddi	Dadansoddaf	Dadansodda	Dadansoddwn	Dadansoddir
Dadlau	Dadleuaf	Dadleua	Dadleuwn	Dadleuir
Dangos	Dangosaf	Dengys	Dangoswn	Dangosir
Darlunio	Darluniaf	Darlunia	Darluniwn	Darlunir
Dweud	Dywedaf	Dywed	Dywedwn	Dywedir
Dylunio	Dyluniaf	Dylunia	Dyluniwn	Dylunir
Dysgu	Dysgaf	Dysga	Dysgwn	Dysgir
Egluro	Egluraf	Eglura	Eglurwn	Eglurir
Esbonio	Esboniaf	Esbonia	Esboniwn	Esbonnir
Galw	Galwaf	Galwa	Galwn	Gelwir
Gallu	Gallaf	Gall	Gallwn	Gellir
Gosod	Gosodaf	Gosoda	Gosodwn	Gosodir
Gweld	Gwelaf	Gwêl	Gwelwn	Gwelir
Gwybod	Gwn	Gŵyr	Gwyddom	Gwyddys
Herio	Heriaf	Heria	Heriwn	Herir
Meddwl	Meddyliaf	Meddylia	Meddyliwn	Meddylir
Mynegi	Mynegaf	Mynega	Mynegwn	Mynegir
Neidio	Neidiaf	Naid	Neidiwn	Neidir
Penderfynu	Penderfynaf	Penderfyna	Penderfynwn	Penderfynir
Rhannu	Rhannaf	Rhanna	Rhannwn	Rhennir
Rhagfynegi	Rhagfynegaf	Rhagfynega	Rhagfynegwn	Rhagfynegir
Rhagweld	Rhagwelaf	Rhagwela	Rhagwelwn	Rhagwelir
Rhedeg	Rhedaf	Rhed	Rhedwn	Rhedir
Rhyfeddu	Rhyfeddaf	Rhyfedda	Rhyfeddwn	Rhyfeddir
Sefyll	Safaf	Saif	Safwn	Sefir
Teimlo	Teimlaf	Teimla	Teimlwn	Teimlir
Toddi	Toddaf	Tawdd	Toddwn	Toddir
Trafod	Trafodaf	Trafoda	Trafodwn	Trafodir
Ymchwilio	Ymchwiliaf	Ymchwilia	Ymchwiliwn	Ymchwilir

Gair yn Gymorth

Ymadroddion cysylltiol

- Yn gyntaf, yn ail, yn drydydd
- Ar yr un llaw … ar y llaw arall
- Fodd bynnag
- Felly
- Oherwydd hyn
- Yn dilyn
- Serch hynny
- Ymhellach
- I gloi

Cyflwynwch dystiolaeth a chefnogwch eich barn

- Yn ôl X
- Dywed X
- Mynna X
- Mewn erthygl sy'n dwyn y teitl X
- Yn 1900 honnodd X
- Yn ei erthygl …. yn …. awgrymodd X
- Ar y naill law …. Ar y llall
- Gellir dadlau bod …
- Tybia rhai fod …
- Y farn gyffredinol yw bod …
- Y farn ymhlith rhai yw …
- Cred ambell feirniad fod …

Mae / Maent

Dyma sut i redeg y ferf ‘bod’ yn gywir yn yr amser presennol:

Rydw i
Rwyt ti
Mae e
Mae hi
Rydyn ni
Rydych chi
Maen nhw

Maent =
Maen nhw

Maent = Maen nhw

Pa frawddegau sy'n angyhywir felly?

Gweithiodd Tomos yn dda y tymor hwn. Maent wedi llwyddo cwblhau dau asesiad llafar yn llwyddiannus.

Cydweithiodd yr holl ddisgyblion ar y prosiect. Maent yn hapus iawn â'r canlyniad.

Colin Baker ydy awdur yr adroddiad. Maent yn trafod yr amrywiol ffyrdd y gall unigolyn gaffael iaith.

Maent = Maen nhw

Pa frawddegau sy'n angyhywir felly?

Gweithiodd Tomos yn dda y tymor hwn. ~~Maent~~ Mae e wedi llwyddo cwblhau dau asesiad llafar yn llwyddiannus.

Cydweithiodd yr holl ddisgyblion ar y prosiect. Maent yn hapus iawn â'r canlyniad.

Colin Baker ydy awdur yr adroddiad. ~~Maent~~ Mae e'n trafod yr amrywiol ffyrdd y gall unigolyn gaffael iaith.

Beth sydd o'i le ar y brawddegau canlynol?

Credaf roedd y plant yn ymateb yn dda i'r dasg.

Sylwais roedd y bechgyn yn ymddwyn yn well.

Credaf mae angen gwneud mwy i herio'r dysgwyr MAT.

Teimlaf roedd y wers yn hwyliog.

Clywais roedd rhai dysgwyr wedi camddeall.

Beth sydd o'i le ar y brawddegau canlynol?

Credaf roedd y plant yn ymateb yn dda i'r dasg.

Sylwais roedd y bechgyn yn ymddwyn yn well.

Credaf mae angen gwneud mwy i herio'r dysgwyr MAT.

Teimlaf roedd y wers yn hwyliog.

Clywais roedd rhai dysgwyr wedi camddeall.

Beth sydd o'i le ar y brawddegau canlynol?

Credaf fod y plant *wedi* yn ymateb yn dda i'r dasg.

Sylwais fod y bechgyn yn ymddwyn yn well.

Credaf fod angen gwneud mwy i herio'r dysgwyr MAT.

Teimlaf fod y wers yn hwyliog.

Clywais fod rhai dysgwyr wedi camddeall.

Treiglo gwrthrych berf gryno bersonol yn feddal

gwrthrych berf gryno

= y peth yn y frawddeg sy'n 'dioddef' y weithred

CYWIRWCH :

1. Cawson ni gweithdy.
2. Cafodd pob grwp gwlad benodol.
3. Sylweddolom brwdfrydedd y disgyblion.
4. Dewisodd y disgyblion gwlad.
5. Pwysleision ni prif bwrpas y gwaith.
6. Gwnaethon ni murlun.
7. Cafodd y plant diwrnod i'r brenin.
8. Gwnaethon ni fel dosbarth cynnal etholiad.

Berfau Amhersonol

Trafod rhywbeth sydd <u>wedi digwydd</u>

= defnyddio ___wyd (gorffennol),

NID ___ir (presennol)

Berfau Amhersonol

1. **Gofynnwyd i Sian Lloyd.**
2. **Trefnwyd taith i'r traeth.**
3. **Mwynheuwyd yn fawr iawn.**

Yr Amhersonol - Nodiadau pellach...

-ir	y presennol	**e.e**	**Dywedir, Gwelir, Ysgrifennir**
-wyd	y gorffennol	**e.e.**	**Dywedwyd, Gwelwyd, Ysgrifennwyd**
-id	yr amherffaith a'r amhenodol	**e.e.**	**Edrychid**
-er	y gorchmynnol	**e.e.**	**Sylwer**

****DIM TREIGLO****

Nid oes angen treiglo gwrthrych berfau amhersonol, e.e.

Cyhoeddwyd **dyddiad** y cyfarfod nesaf.

****NEGYDDOL****
Mae **ni** neu **nid** yn cael eu gosod o flaen y ffurf amhersonol er mwyn cyfleu'r negyddol ac mae angen cofio treiglo'n llaes neu'n feddal.

P T C yn treiglo'n llaes
B D G Ll M Rh yn treiglo'n feddal

Ni **l**wyddwyd i orffen y gwaith mewn pryd.

Ni **ch**yhoeddir y dyddiad gan y Cadeirydd tan ddiwedd y cyfarfod.

Berfau'r Gorffennol

AMRYWIWCH eich defnydd o ferfau- arddangoswch eich sgiliau ieithyddol!

TROWCH Y RHAIN YN FERFAU CRYNO :

1. **Gwnaeth y plant fwynhau...**
2. **Gwnaeth y dosbarth benderfynu...**
3. **Gwnaethon ni ddarganfod...**
4. **Gwnaethon ni weld...**
5. **Gwnaeth y plant weld...**

Berfa'r Gorffennol

AMRYWIWCH eich defnydd o ferfau-arddangoswch eich sgiliau ieithyddol!

1. **Mwynheuodd y plant ...**
2. **Penderfynodd y dosbarth ...**
3. **Darganfyddon ni ...**
4. **Gwelon ni weld...**
5. **Gwelodd y plant ...**

Iaith berswadiol

Defnyddio iaith berswadiol

- Mae'n amlwg fod...
- Does dim amheuaeth fod…
- Fe wyr pawb fod…
- Mae'n sicr…
- A dweud y gwir…
- Heb amheuaeth…

Yn sicr…

Yn wir…

Os caf ddweud…

Erbyn hyn…

Heb os nac oni bai…

Allwch chi ddim gwadu…

Iaith ac Ymadroddion ar gyfer Mynegi Barn		
A dweud y gwir	Anghytunaf	Beth bynnag
Byddai'n braf petai…	Byddai'n dda petai…	Credaf
Cytunaf	Dadl arall	Does dim amheuaeth fod…
Does dim dwywaith nad…	Does dim rhyfedd mai…	Dylid cofio mai…
Er hyn…	Felly…	Fodd bynnag
Gwaetha'r modd…	Gŵyr pawb…	Heb os nac oni bai
Heb unrhyw amheuaeth	Hoffwn	I gloi…
O ganlyniad, teimlaf…	Onid yw…	Mae lle i gredu…
Mae'n amlwg y bydd angen…	Mae'n amlwg fod angen…	Mae'n anhygoel fod…
Mae'n anodd credu…	Mae'n bwysig iawn nodi…	Mae'n hen bryd
Mae'n rhaid cydnabod…	Meddyliaf	Pwy all beidio â…
Pwysig yw nodi…	Pwynt arall	Rwy'n argyhoeddedig…
Rwyf o'r farn…	Rwy'n rhyfeddu	Rydw i'n meddwl
Rhaid cofio	Teimlaf	Wedi'r cyfan…
Wrth reswm…	Y gwir cas yw…	Y gwirionedd yw mai…
Yn ail	Yn anffodus…	Yn bendant
Yn bersonol…	Yn ddi-os, fe fydd…	Yn drydydd
Yn fy marn i…	Yn gyntaf	Yn ôl rhai
Yn ôl pob tebyg	Yn sicr	Yn wir
Yr hyn sy'n drist yw bod…	Yr hyn sy'n fy ngwylltio yw…	

Allan o Gair yn Gymorth

Mynegi barn

Yn fy marn i...	Credaf fod...	Mae'n amlwg fod	Rwy'n anghytuno
Mantais yw...	Anfantais yw...	Mae... yn beth da oherwydd...	mae... yn dadlau bod ...
ar ôl dweud hyn...	ar un llaw...	ar y llaw arall...	felly i gloi...

Cysyllteiriau:

Cred …
Dadleua …
Fodd bynnag, …
Golyga hyn fod …
Yn raddol, …
Yn ddiweddar, …
Yn wreiddiol, …
Erbyn hyn, …
Weithiau, …
Dengys hyn fod …
Serch y ffaith bod …
Cred eraill …
Ar y nail law, …
Ar y llaw arall, …
Gellir dadlau bod …
Yn wir, …
Yn ogystal â hyn, …
Felly, …
Yn y bôn, …
Gall …
Ar ôl pwyso a mesur …
Dylai …
Gallai …
Dylid cofio mai / taw
Eto i gyd, …

Does dim dwywaith amdani, …
Mae carfannau o bobl yn dadlau …
Dywed rhai …
Cytuna rhai …
Cytuna nifer …
Anghytuna eraill …
All neb wadu'r ffaith …
Heb flewyn ar dafod, …
Heb os, …
Heb os nac oni bai, …
Barn rhai yw …
Barn eraill yw …
Y gwir yw …
Hefyd …
Yn ôl …
Yn ôl rhai …
Yn ôl eraill …
Yn y pendraw …
Yr un sy'n ei amlygu ei hun yw …
Yn blwmp ac yn blaen, …
Mae lle i gredu bod …
Mae'n amlwg bod / nad yw …
Does dim amheuaeth bod …
Rhaid cydnabod bod …
Rhaid gofyn y cwestiwn …

Ychwanegu

a / ac
hefyd
yn ychwanegol
yn ogystal â
gyda
nid yn unig
ymhellach
at hynny
ar ben hynny

Achos ac effaith

os
felly
oherwydd
oblegid
bydd hyn yn achosi
o ganlyniad
gan hynny
yn sgil
yn uniongyrchol
o hyn ymlaen

Croesddweud

ond
neu
fodd bynnag
ar y llaw arall
tra
yn hytrach
gan weld bod
yn lle hynny
i'r gwrthwyneb
serch hynny

https://sewales.org.uk

Ymadroddion

- Gallwch chi ddefnyddio **ymadroddion** hefyd er mwyn datblygu eich trafodaeth ymhellach. Dyma rai enghreifftiau i chi:
- Heb os nag oni bai…
- Heb flewyn ar dafod…

Gwallau cyffredin eraill wrth ysgrifennu…

Berfenwau ac arddodiaid.

Ydych chi'n cofio rhai o'r gwallau cyffredin?

maddau i

mynd at (gyda pherson)

mynd i (wrth sôn am leoliad)

peidio â

rhyfeddu at

siarad â / ag (gyda pherson)

siarad am (wrth sôn am bwnc)

sôn wrth (gyda pherson)

sôn am (wrth drafod pwnc)

ysgrifennu at

sylwi ar

anelu at
anghofio am
ateb dros
clywed am (wrth sôn am bwnc neu berson neu unrhyw destun trafod)
clywed gan (wrth esbonio eich bod wedi cael newyddion neu hanes wrth berson arall)
cyfarfod â
cyffwrdd â
dweud wrth
ffarwelio â
gwahardd rhag
gweiddi ar
gwrando ar
llwyddo i



a neu **os?**

Yn Saesneg

a = *whether*

os = *if*

- Wn i ddim **a** wyt ti'n gallu dod i'r cyfarfod?
- Doedd e ddim yn siŵr a fyddai'n gallu dysgu'r wers.

- Os galli di ddod i'r cyfarfod yfory byddai hynny'n wych.
- Gallwn ni ymarfer os bydd amser.

Ar wahân

- Mae ‘**ar wahân**’ yn cael ei ysgrifennu ar wahân!



tra / cyn

Fel arfer, defnyddir ffurf bersonol ar y ferf ‘bod’ yn dilyn **tra** a **cyn**

- Tra fy mod i’n cofio.
- Tra byddaf yn aros.

Cofiwch - ni ddylid defnyddio ‘yn’ yn dilyn ‘tra’

- Tra’n cerdded i’r neuadd gwelodd Siôn ferch yn llefain.

- Tra bo Siôn yn cerdded i’r neuadd, gwelodd ferch…

Pan

Yn Saesneg, defnyddir "when" er mwyn dechrau cwestiwn ond hefyd fel cysylltair ar ddechrau is-gymal.

Ond yn Gymraeg, ceir dau air gwahanol – **Pryd** a **Pan**

Pryd *bydd y plant yn gadael?*

Pan *fyddan nhw'n barod.*

Pan *welais i'r dyn, es i allan!*

Es i allan, ***pan*** *welais i'r dyn!*

Datblygu Sgiliau ysgrifennu yn yr ystafell ddosbarth

https://hwb.gov.wales/api/storage/8d60d62a-6a18-4b83-8a29-95aef6b61eac/canllaw-ar-addysgu-sgiliau-ysgrifennu.pdf

Perthynas rhwng darllen ac ysgrifennu

- Mae **perthynas** agos **rhwng darllen ac ysgrifennu ac** mae cysylltiad agos **rhwng** hyfedredd person fel darllenwr a'i allu fel ysgrifennwr.

Pam cysylltu darllen ac ysgrifennu?

Am mai dwy wedd ar yr un peth ydyn nhw. Mae darllen i ysgrifennu fel y mae gwrando i siarad.

Trwy gyflwyno testunau safonol ac amrywiol, (gan gynnwys enghreifftiau o waith y dysgwyr) fel modelau o ysgrifennu effeithiol, a'u cyd-ddarllen, gellir datblygu'r ysgrifenwyr gwan ac ymestyn yr ysgrifenwyr hyderus.

- Wrth gyflwyno testunau gweladwy i bawb, gellir tynnu sylw at nodweddion arbennig er mwyn datblygu gallu'r plant i ysgrifennu. Gellir cynyddu a chyfoethogi 'repertoire' geiriau, brawddegau, a syniadau creadigol y plant.
- http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/cynnal/Athrawon/canllawiau/cyd-ddar.htm#Darllen%20ac%20Ysgrifennu

Serennu wrth 'Sgrifennu

Canolfan Peniarth

Rhoi Adborth



Hwb News
@HwbNews

Estyn

https://www.youtube.com/watch?v=YD1e1T0SIKo

Gwaith ymchwil

https://www.youtube.com/watch?v=LjCzbSLyIwI



Rhaid i adborth effeithiol fod yn ...

ddealladwy

gadarnhaol

galonogol

gywir

rheolaidd

amserol - rhaid ei roi ar yr amser cywir

Pwrpas adborth ydy:

GWNEUD I DDYSGWR FEDDWL	HELPU'R DYSGWR I WERTHUSO'I WAITH EI HUN	CANMOL YMDRECH
CYFEIRIO AT Y DASG A'R MEINI PRAWF LLWYDDIANT	HELPU'R DYSGWR I DDEALL Y GWAITH YN WELL	HELPU'R DYSGWR I WELLA'I WAITH
DANGOS I'R DYSGWR SUT I SYMUD YMLAEN	DANGOS BOD YR ATHRO / ATHRAWES YN PARCHU'R GWAITH	TYNNU SYLW AT LAWER O GAMGYMERIADAU

Asesu Ysgol Gyfan

Beth yw pwrpas marcio?

Mae marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ac o fewn fframwaith penodol, yn hollbwysig. Dylai pob athrawes / athro fod yn ymwybodol o'r rhesymau dros farcio. Mae'n rhan bwysig o'r asesu dyddiol o waith disgyblion ac yn rhoi gwybodaeth i'r disgybl am y cynnydd a wnaeth yn ei waith.

Dylai'r marcio bob amser fod yn bositif ac yn ganllaw i gynorthwyo'r disgybl i symud ymlaen yn hyderus. Dylid marcio gwaith disgybl gan gofio natur y disgybl, y dasg a'r targedau a osodwyd iddo / iddi. Dylai'r disgyblion fod yn ymwybodol o'r targedau a'r disgwyliadau cyn dechrau'r gwaith e.e. ysgrifennu mewn 'genre' penodol, atalnodi'n gywir, sillafu geiriau penodol yn gywir, defnyddio ansoddeiriau / adferfau / idiomau'n effeithiol a.a. Nodwyd nod y wers sydd yn glir ar ddechrau pob tasg er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gwybod yr hyn rydym yn chwilio wrth farcio.

http://www.ysgolyfenni.co.uk/downloads/polisi-marcio.pdf

Dulliau Asesu



- Cyfle i drafod

Eich profiadau chi.

Enghreifftiau o bolisiau marcio



Marcio

Dylai adborth cadarnhaol a chyson gryfhau cymhelliant y disgyblion. Wrth farcio ni ddylid gor-gywiro, mae hyn yn tanseilio hyder yr unigolyn. Rhaid canolbwyntio ar gywiro rhai gwallau ar y tro. Rhaid meddwl felly am y gwallau yn nhrefn blaenoriaeth ac yn unol â gallu'r disgybl. Gellir defnyddio llythrennau neu symbolau yn ymyl y ddalen neu ar y gwaith ei hun sy'n ddealladwy i'r disgyblion ac yn unol â pholisi marcio'r ysgol/adran.

Wrth ddrafftio gwaith gall disgyblion farcio eu gwaith unigol ynghyd â gwaith eu cyfoedion yn adeiladol. Bydd hyn yn eu gwneud yn llai dibynnol ar yr athro/athrawes ac yn meithrin cyfrifoldeb dros gywirdeb ieithyddol. Bydd y disgybl felly yn fwy tebygol o sylwi ar y cywiro. Anogir iddynt wneud hyn drwy ddefnyddio pensil.

Côd Marcio

S /	Cam sillafu (geiriau syml a thermau pynciol)
	Atalnodi (atalnod llawn, priflythrennau)
P //	Paragraff newydd
Uwcholeuo	Ail ysgrifennu un frawddeg flêr
Cyst /	Gwall cystrawen
Tr	Cam dreiglad: gosod bwa rhwng dau air i ddynodi'r treiglad, e.e. fy gwaith
( )	Berf anghywir
I.S.	Idiom Saesneg
G.S.	Gair Saesneg
✓✓	Sylwadau da

Allan o Gair yn Gymorth

Arferion Da

"Effective *feedback* occurs during the learning, while there is still time to act on it."

-Jan Chappuis

https://www.janchappuis.com/

Sut i gyflwyno adborth ar lafar yn effeithiol?

Canolbwyntio ar adran o'r gwaith yn hytrach nag edrych ar y darlun mawr.


Tuesday 12th January 2016

The insurgents in Iraq were the Sunnis and Shiah. The Sunni group did not like the Ba'ath party, Shiah, USA and the Kurds. The Shiah group did not like the USA Sunni and Baa'th party either. These two group sought against each other and AL Qaeda got involed. The Insurgent group came from local rebel groups but the Iran government mostly recruited the Shiah insurgents to take out the Sunnis. The Al Qaeda group also came down to help the rebels because they had experience sight the USA. They made underground armies making money out of the other rebels. Their attacks often used Bombs, sniper, kidnaps, Military Soxes and execution for Xattiotion.

The war on the Civilians

Strategaeth y blwch melyn

Manteision ac anfanteision?

Meini Prawf Llwyddiant



☺ Nod y wers: ysgrifennu gweddi

Meini Prawf Llwyddiant	Hunan asesiad	Asesiad athro
• Dechrau gyda : Gweddiwn,	✓	✓
• Defnyddio'r geirfa: O Dad / Arglwydd fel agoriad	✓	✓
• Dweud diolch am bobl sy'n ein helpu	✓	✓
• Gofyn am gymorth (help)	✓	✓
• Gwneud y weddi yn bersonol i chi	✓	✓
• Gorffen gydag : Amen	✓	✓

Gweddiwn,

O Dduw,
diolch am y doctoriaid gofalgar sydd yn gweithio yn yr ysbytai,
diolch i'r ffermwyr sydd yn tyfu cnydau i ni fwyta,
diolch i'r athrawon gweithgar sydd yn dysgu ni llawer am bobeth,
diolch am ffrindiau caredig a chyfeillgar.
Helpa ni i fod yn dda, yn garedig ac i wneud ein gorau glas.
A helpa pobl yn ein teulioedd sydd yn sal neu yn unig a cadw nhw yn ddiogel.
Diolch am ofalu am tadcu Eddie pan oedd yn ysbyty Glangwili.
Amen.

★ Dyma weddi arddercheg sÿn ddiolchgar am betha a phobl sÿn bwysig i ti.
★ M.P.Ll. wedi ei ddilyn yn llwyddiannus ac rwyt ti hefyd wedi disgrifiör pobl - doctoriaid gofalg athrawon gweithg
★ Ymhelaethu ar yr hyn sydd ganddot - mwy o fanylion.
teuluoedd x3 • teuluoedd • teuluoedd • teuluoedd

https://www.j2e.com/?id=WTBxUFhxb3RlVWtuR3F0Vg==&wp&blog=2&revision=3&noEdit=1&bsv=2&signature=9a1ij37k9ynp3wQmclG4HTTrtDo%3D

Rhoi aborth i'r dosbarth cyfan



History Assessment Crib Sheet

Date 7/11/16 Class 8.3B

Grading Mark Scheme

Industrial Revolution
16 Mark Question.
P = 15
G = 12
S = 8
B = 4
KO - out of 10.
(Average 4/10.

Feedback

Knowledge Organiser - Revision?
- Application of knowledge - esp. dates.
Conclusion - Couple missing here
Examples - Providing clear examples to back up points - PEEL
Structure - Good basic structure of agree/disagree/conclusion across class.
Effort - A4 page written answer for both set - huge improvement on LX.

Star Performers

Nathan - SK and essay Q. - silver
Gabriel - Examples and silver
Nathan Pye - Excellent Subject knowledge used.

Cause for Concern:

Elliot - writing on assessment sheet and not in book.
Jame - Incomplete assessment - just gave up.
Kieran - Sit assessment
Valler
James
Selina - No revision

WWW Codes:

AD, IM.

EBI Codes:

EX, CN, SK.

Actions:

1) 'Provide me an example for....' Give 2/3 Points and as students to complete
2) Improve your detail - use KO to add dates/species in margin of assessment
3) Boys complete and Selina resit

Literacy:

SP - Industrial Revolution
Paragraphs - Focus across class to develop this
SP - Britain, Cholera, vaccination
Underline misspelt words in green

WAGOLL Moments

Gabriel - Examples on Education paragraph
Nathan P - Subject knowledge examples - Tech.

https://mrthorntonteach.com/2016/11/05/assessment-crib-sheets/

Manteision ac anfanteision

Tasgau Cystadleuol

Mae cystadleuaeth iach yn gallu gallu codi cyrhaeddiad.

Pa bwyntiau leithyddol sydd angen eu hystyried wrth gyflwyno adborth

Sut i ddefnyddio cwestiynau yn effeithiol?

RHAI CWESTIYNAU

Fedri di ffeindio ...? Fedri di gywiro ...? Fedri di ychwanegu ...? Fedri di wella ... (e.e. dechrau'r stori) ?	
Pa ran ydy'r rhan orau? Pam?	
Beth ydy dy farn am dy waith?	
Pam ydw i'n dweud fod hwn yn waith da?	
Sut gallwn ni wella'r gwaith?	
Beth oedd y meini prawf llwyddiant?	
Wyt ti wedi asesu dy waith yn erbyn y meini prawf llwyddiant?	
Beth oedd y sgiliau roeddet ti'n ymarfer?	
Beth ydy dy gamau nesaf?	

Cywiro gwaith dysgwyr: Santes Dwynwen

Edrychwch ar y darn ysgrifenedig.
Rhestrwch y gwallau sydd wedi eu cywiro.

Eglurwch y gwallau a'r cywiriadau.

Yn eich barn chi, beth oedd meini prawf llwyddiant y dasg hon?

O ystyried hyn, ysgrifennwch sylwadau i ymateb i'r meini prawf llwyddiant.

Ystyriwch pa strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu gallech chi eu defnyddio yn y dosbarth ar gyfer ymateb i straeon?

Santes Dwynwen

Un ddiwrnod roedd na geneth yn enw Dwynwen. Roedd hi yn tywysoges a roedd hi yn byw mewn castell hefo ei thad. Roedd thad Dwynwen wedi dweyd i Dwynwen roedd hi angen priodi tywysog roedd Dwynwen ddim yn hoffi. So roedd Dwynwen wedi redeg i yr coedwig a roedd Dwynwen wedi feindio bachgen roedd o yn cariad. Roedd Enw y bachgen oedd Meilon. A wedyn roedd nhw ffraeo a Dwynwen yn redeg i ffwrth